

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 7fed o Ebrill 2015

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Hatcher, Cyng Euros Davies, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Geraint Davies, Cyng Helen Howells, Cyng Bill Green, Cyng Daff Davies, Cyng Daniel Evans

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Alun James, Cyng Lewis Davies

Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng Lewis Davies yn dilyn ei lawdriniaeth yn ddiweddar a chydymdeimlwyd gyda'r Cyng Alun James ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith. The Community's best wishes were sent to Cllr Lewis Davies for a speedy recovery following his operation recently and our thoughts were extended to Cllr Alun James on the death of his sister in law.

1	<u>Datgelu Buddianau Personol / Declare Personal Interests</u> Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.
2	<u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Mawrth yn gywir gan y Cyng. Gwilym Jenkins ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bill Green. The March minutes were proposed as a true record by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Bill Green.
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u>
a.	Cofgolofn Drefach / Drefach War Memorial: Derbyniwyd dogfennau newydd wrth y cyfreithwyr yn trosglwyddo'r perchnogaeth o'r unigolion i'r Cyngor Cymuned. Bydd yn rhaid i'r ymddiriedolaeth barhau, yr unig ffordd i'w gau lawr fyddai petae'r ymddiriedolaeth yn methu ond nid dyna yw'r achos yma. New documents were received from the solicitors transferring the ownership of the war memorial from the individual trustees to the Community Council. The trust will have to remain, the only way to close a trust down would be via a Cy-pres if the trust had failed but this is not the case here.
b.	Taith Dros Fywyd 26/4/2015 Walk for Life: Mi fyddai'r daith yn dechrau am 10yb o Gefn-hafod ac yn mynd tuag at Castell Moeddyn a nôl i Gorsgoch am tamed o fwyd. Taith o ryw 4 milltir ac mi ddosbarthwyd y ffurflenni nawdd a'r posteri. The walk will start at 10am from Cefn-hafod and go towards Castell Moeddyn and back to Gorsgoch for some food. A walk of some 4 miles and sponsorship forms and posters were circulated.
c.	Cinio'r Cyngor Cymuned 24/4/2015 – Ffostrasol Arms 7.30yh Community Council Annual Dinner. Gwnaed y trefniadau a casglwyd yr enwau. The arrangements were confirmed and names were collected.
d.	Superfast Cymru – Fe wnaeth y Cyng Geraint Davies ddiweddarau'r pwyllgor ar y Superfast Broadband gan ddweud bod yn rhaid i bawb gysylltu gyda'u cwmnioedd er mwyn derbyn y lein gyflym. Cllr Geraint Davies updated the committee on the Superfast Broadband by telling them that they need to contact their broadband

	providers to activate the fast line.
4	<u>Gohebiaeth</u>
a.	Cylchgrawn Bwcabus Magazine – Cylchredwyd/Circulated
b.	Lansio Ymgynghoriad – Rhan-berchnogaeth gyda Rhwyd Diogelwch 24/4/2015 10.30am Gwesty'r Parc, Aberystwyth Tai Canolbarth Cymru. Consultation Launch Mid Wales Housing Shared Ownership with a Safety Net 24/4/2015 10.30am.
c.	Cymdogaion Cynnes – Cylchredwyd y diweddariad ar y ddogfen hon gan roi mwy o wybodaeth i bobl am syndicadau olew a bargeinion tanwydd, penderfynwyd ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned. The updated documents was circulated which provides more information about the oil syndicated and better fuel deals, it was decided to put the link on the Community Council's website.
d.	Ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth Cartrefi Preswyl Cyngor Sir Ceredigion – ymestyn tan 30ain o Ebrill 2015 a rhoddwyd rhestr sesiynau Galw Heibio ar wefan y Cyngor Cymuned. Consultation on the future provision of Ceredigion County Council's Residential Care Homes' – extended until the 30 th April 2015 and the list of the drop in sessions have been put on the Community Council's website.
e.	Etholiad Cyffredinol Senedd y Deyrnas Gyfunol – 7fed o Fai 2015. Notice of Election United Kingdom Parliamentary Election 7 th May 2015.
5.	<u>Cyfrifon/Accounts</u>
a.	Budget 2015/2016 – diweddariad/update. Penderfynwyd cadw llygad barcud ar y cyfrifon a'r Clerc i roi diweddariad bob tri mis. It was decided to keep a close eye on the accounts and the Clerk to give an update every three months.
b.	Cytuno asedau'r Cyngor Cymuned. Agree the Community Council's Assets. All in agreement. Pawb mewn cytundeb gyda'r rhestr.
c.	Cytuno cyfrifon 2014-2015. Agree the 2014-2015 Accounts. All in agreement and were signed by the Chairman and Clerk. Pawb mewn cytundeb. Arwyddwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.
6.	<u>Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and requests</u>
a.	Costau Cyfieithu Tachwedd – Mawrth / Translation Costs November – March (Not paid from last months payment) - £178.62
b.	Treuliau'r Clerc/ Clerk Expenses (Not paid from last months payment) – £160.00
c.	Barriers Diogelwch Cae Chwarae Drefach Playing Field Safety Barriers. Derbyniwyd dyfnbris o £432.00 + VAT am y gwaith atgyweirio teimlwyd fod hyn yn ormod i'w dalu ac y byddai'r Cadeirydd yn gwneud trefniadau i'w hatgyweirio. A quote of £432.00 + VAT was received however it was felt that this was too much to pay therefore the Chairman was going to make arrangement for them to be repaired.
d.	Ciosg Ffôn Drefach Phone Kiosk – Panel Gwydr wedi torri mi fydd y Cadeirydd yn edrych ar y Ciosg ac yn gwneud penderfyniad beth fyddai orau i'w wneud. One glass pane has been broken in the Kiosk, the Chairman would look at it and come

<p>e.</p> <p>f.</p> <p>g.</p> <p>h.</p>	<p>to a decision what would be best to do.</p> <p>Eisteddfod Capel y Groes, Llanwnnen - £50.00. Cynigwyd/Proposed: Cllr Bill Green Eiliwyd/Seconded: Cllr Gwilym Jenkins</p> <p>Theatr Gweithredol Troedyrhiw Theatr - £25.00. Cynigwyd/Proposed: Cllr Gwilym Jenkins Eiliwyd/Seconded: Cllr Geraint Davies</p> <p>Hysbysfwrdd Cae Chwarae Drefach Playing Field Noticeboard - £75.00. Cynigwyd/Proposed: Cllr Daniel Evans Eiliwyd/Seconded: Cllr Gwilym Jenkins.</p> <p>Iwan Evans Tim Rygby Tag Cymru/Wales Tag Rugby Team: £100.00. Cynigwyd/Proposed Cllr Helen Howells Eiliwyd/Seconded: Cllr Geraint Davies.</p>
<p>7.</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></p> <p>A140668 – Land adj to Derlwyn, Drefach - WITHDRAWN</p> <p>Cae ger mynedfa i Cefnrhuddlan Ganol/Field at the entrance to Cefnrhuddlan Ganol. Codwyd pryderon bod dim yn cael ei wneud am y mater bod sied gŵn, carafannau a ceir ar y ddaear yma a bod rhywun yn byw yno, ond neb yn gwybod pwy. Penderfynwyd codi'r mater gyda'r heddlu a gwasgu ar adran gorfodaeth y Cyngor i gymryd camau pellach. Concerns were raised over the dog shed, caravans and cars on the land and that someone is living there but nobody knows who. It was decided to raise the matter with the police and press on the enforcement department at the Council to take further action.</p>
<p>8.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></p> <p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 12fed o Fai am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach a fydd yn cynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. It was decided to hold the next meeting on the 12th of May at 7.30pm at Drefach Village Hall which will include the AGM.</p> <p>Codwyd y pwynt bod llawer o sbwriel yn cael ei daflu ar hyd yr heol rhwng Brynteg a Llanwenog ac yn gyffredinol ar hyd heolydd y Plwyf. Penderfynwyd codi'r mater gyda adran briffyrdd y Cyngor Sir. It was raised that there is a lot of rubbish being thrown along the roadside between Brynteg and Llanwenog and in general in the Parish. It was decided to raise the matter with the County Council Highways department.</p> <p>Hysbysebwyd bod taith dractorau ar y 24ain o Fai yn gadael Drefach am 10.30yb a'r elw i'w rannu rhwng Clwb Cledlyn a'r Ambiwylans Awyr. It was advertised that a tractor run was being held on the 24th May leaving Drefach at 10.30am and the profit will be shared between Clwb Cledlyn and the Air Ambulance.</p> <p>Codwyd bod lorïau yn torri fewn i glawdd/wal gerrig Nantfach, Alltyblaca ai dynnu at sylw'r adran briffyrdd. It was raised that lorries were cutting into the stone</p>

	wall/hedge at Nantfach, Alltybaca, it was decided to raise the matter with the highways department.
--	---